**Sut i drin anifeiliaid anwes**

**Nodiadau'r athro**

## Nod

Sefydlu dulliau cymeradwy'r diwydiant o drin amrediad o'r anifeiliaid anwes mwyaf cyffredin.

## Amcanion

Bydd y myfyriwr yn gallu:
Dehongli gwahanol agweddau o seicoleg anifeiliaid.
Deall pa baratoadau addas fydd angen eu gwneud.
Egluro'r dull mwyaf addas o drin amrediad o rywogaethau anifeiliaid anwes gwahanol

## Cynnwys

Mae'r uned hon yn darparu'r seiliau i ddeall sut mae trin amrediad o anifeiliaid anwes cyffredin. Cyflwynir yr egwyddorion cyffredinol, a rhoir crynodeb o'r paratoadau fydd angen eu gwneud.

Anogir myfyrwyr i feddwl am seicoleg anifeiliaid anwes, a meddwl yn rhesymegol pam mae anifail yn ymateb mewn ffordd arbennig.

Darperir tasg 'Asesiad Risg', i'w gwblhau gan y myfyriwr(wyr).

Y gobaith yw y bydd myfyrwyr yn gallu defnyddio'r egwyddorion i gyd wrth ymdrin â rhywogaeth arbennig. Mae'r cynnwys yn fan cychwyn da ar gyfer trafodaeth yn y dosbarth, ymchwil unigol, ac yn enwedig ar gyfer tasgau penodol a awgrymir yn y cynllun gwers.

| *Cyflwyniad – Awgrym ar gyfer Cynllun Gwers* | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Amseru mun: eil | | Gweithgaredd | Cynnwys Mynegol | Tasgau awgrymedig |
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Seicoleg Anifail | Sut mae anifeiliaid anwes yn gweld pobl?<br>Sut fath o ymateb mae hyn yn ei gael?<br><br>Ystyriwch:<br>Mae rhai anifeiliaid yn ysglyfaethwyr, â'r gallu ganddynt i ymosod er mwyn amddiffyn eu hunain. Felly, am y rheswm hwn, mae'n rhaid cymryd gofal.<br><br>Ystyriwch:<br>Mae rhai anifeiliaid anwes, sydd wedi eu cuddliwio'n dda e.e. cwningod, yn rhewi yn eu hunfan, gan obeithio na fydd ysglyfaethwr yn eu gweld wrth basio. | Trafodaeth ddosbarth:<br>Rhyngweithio rhwng ysglyfaethwr/ysglyfaeth.<br><br>Fel unigolyn, neu ran o grŵp, gwnewch y tasgau canlynol:<br>Mae amrediad o ffyrdd y gall anifail ymateb i berygl bygythiad, er mwyn osgoi anaf.<br>Dyma rai o'r ymatebion cyffredin:<br>*Ymladd/ffoi/rhewi/ymgarthu*<br>Gyda rhywogaeth benodol, trafodwch beth allai ymateb yr anifail fod i fygythiad posibl. Rhowch resymau pam rydych chi'n meddwl y gallai ymateb fel hyn, a pha mor effeithiol a phriodol rydych chi'n meddwl byddai'r ymateb hwn. |
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Ymosod/brathu | Beth sy'n digwydd pan fydd anifail sydd dan straen yn ymosod?<br>Beth ydi'r drefn gywir os cewch eich brathu? | Trafodwch pam mae hi mor bwysig aros yn dawel.<br><br>Gwnewch restr o gamau i'w cymryd.<br>Trafodwch, rhesymwch a rhowch gyfiawnhad dros y rhestr |

TELESGOP

NGfL CYMRU GCaD

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Iechyd a diogelwch | Beth sy'n bwysig i'w  wneud i'r lloc wrth baratoi trin anifail? | Yn unigol neu fel rhan o gr□p:<br>Gwnewch restr o gamau i'w cymryd.<br>Trafodwch, rhesymwch a rhowch gyfiawnhad dros y rhestr; yn cynnwys Deddf Iechyd a Diogelwch 1974. |
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Paratoi lloc | Beth sy'n bwysig ei wneud i'r lloc wrth baratoi trin anifail? | |

| ***Ffured – Awgrym ar gyfer Cynllun Gwers*** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Amseru<br>mun: eil | | Gweithgaredd | Cynnwys Mynegol | Tasgau awgrymedig |
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Trin ffured | Beth yw'r rhannau mwyaf cryf? | Eglurwch pa rannau cryf o'r corff y gellir eu trin. |
| | | | Beth yw'r rhannau mwyaf gwan? | Eglurwch pa rannau gwan o'r corff y dylid eu hosgoi. |
| | | | Beth yw'r dull cywir o'i drin? | Disgrifiwch y dull sylfaenol o'i drin, a'i bwrpas. |
| | | | Sut mae ffuredau'n tueddu i ymddwyn tuag at y triniwr? | Eglurwch:<br><br>Pam bod ffuredau'n fwy tueddol o ddefnyddio eu dannedd na rhai rhywogaethau eraill?<br><br>Beth allech chi ei wneud yn nhermau I a D a defnyddio Cyfarpar Amddiffyn Personol? |
| | | | Beth yw'r weithdrefn ddychwelyd ddiogel? | Disgrifiwch y weithdrefn ddychwelyd ddiogel. |
| | | Cynhwysir tasg ryngweithiol yn y pecyn hwn -<br>Rhaid i'r myfyrwyr gwblhau'r asesiad risg, sy'n ymwneud â thrin yr anifail hwn.<br>Bydd 'cyfrifiannell' yn dangos y risg gyffredinol. | | Cwblhewch y dasg asesu risg rhyngweithiol trwy'r linc a ddarparwyd. |

TELESGOP

NGfL CYMRU GCaD

| *Cwningen – Awgrym ar gyfer Cynllun Gwers* | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Amseru mun: eil | | Gweithgaredd | Cynnwys Mynegol | Tasgau awgrymedig |
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Trin cwningen | Beth yw'r rhannau mwyaf cryf? | Eglurwch pa rannau cryf o'r corff y gellir eu trin. |
| | | | Beth yw'r rhannau mwyaf gwan? | Eglurwch pa rannau gwan o'r corff na ddylid eu trin. |
| | | | Beth yw'r dull cywir o drin?<br><br>Beth ddylid ei osgoi wrth drin? | Disgrifiwch y dull sylfaenol o drin, a'i bwrpas.<br><br>Os nad ydi pwysau'r gwningen yn cael ei gynnal, mae'n tueddu i gicio ei choesau ôl.<br>Pam fod hyn yn berygl i'r triniwr?<br>(beth yw problemau I a D?)<br>Pam fod hyn yn gosod y Gwningen mewn perygl?<br>(Beth yw problemau lles yr anifail?)<br><br>Mae rhai pobl yn credu y gellir codi cwningen i fyny gerfydd ei chlustiau. Beth yw eich barn am y datganiad hwn? Cyfiawnhewch eich barn yn llwyr. |
| | | | Beth yw'r weithdrefn ddychwelyd ddiogel? | Disgrifiwch y weithdrefn ddychwelyd ddiogel. |
| | | Cynhwysir tasg ryngweithiol yn y pecyn hwn -<br>Rhaid i'r myfyrwyr gwblhau'r asesiad risg, sy'n ymwneud â thrin yr anifail hwn.<br>Bydd 'cyfrifiannell' yn dangos y risg gyffredinol. | | Cwblhewch y dasg asesu risg rhyngweithiol trwy'r linc a ddarparwyd. |

*Mochyn cwta - Awgrym ar gyfer Cynllun Gwers*

| Amseru mun: eil | | Gweithgaredd | Cynnwys Mynegol | Tasgau awgrymedig |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwyliwch y clip ffilm:<br><br>Trin mochyn cwta | Beth yw'r rhannau mwyaf cryf? | Eglurwch pa rannau cryf o'r corff y gellir eu trin. |
| | | | Beth yw'r rhannau mwyaf gwan? | Eglurwch pa rannau gwan o'r corff y dylid ei osgoi. |
| | | | Beth yw'r dull cywir o drin? | Disgrifiwch y dull sylfaenol o drin yr anifail, a'i bwrpas.<br><br>Pam ei bod hi'n arferol gosod bys neu fawd o dan ên y mochyn cwta? |
| | | | Sut mae moch cwta'n tueddu i ymddwyn tuag at y triniwr? | Eglurwch:<br><br>Pam fod moch cwta'n dueddol o ddianc?<br><br>Nid yw moch cwta yn ymosodol fel arfer. Felly pam maen nhw'n tueddu i gnoi?<br><br>Beth allech chi ei wneud yn nhermau I a D a defnyddio Cyfarpar Amddiffyn Personol? |
| | | | Beth yw'r weithdrefn dychwelyd ddiogel? | Disgrifiwch y weithdrefn dychwelyd ddiogel. |
| | | Cynhwysir tasg ryngweithiol yn y pecyn hwn -<br>Rhaid i'r myfyrwyr gwblhau'r asesiad risg, sy'n ymwneud â thrin yr anifail hwn.<br>Bydd 'cyfrifiannell' yn dangos y risg gyffredinol.. | | Cwblhewch y dasg asesu risg rhyngweithiol trwy'r linc a ddarparwyd. |

TELESGOP

NGfL CYMRU GCaD